

SGANDAL SWYDDFA'R POST/HORIZON



Yn y flwyddyn 2000, cyflwynodd Swyddfa'r Post feddalwedd newydd o'r enw Horizon ym mhob un o'i changhennau. Câi'r canghennau hyn eu rhedeg gan is-bostfeistri. Roedd y feddalwedd, a ddatblygwyd gan Fujitsu, yn ddiffygiol a byddai'n dangos ar gam bod arian ar goll yng nghyfrifon y canghennau. Parodd hyn i Swyddfa'r Post erlyn is-bostfeistri am ddwyn, twyll a chyfrifyddu anwir. Cafwyd mwy na 900 o bobl yn euog ar gam, a bu'n rhaid i rai ohonynt fynd i'r carchar ar gam.

Yn 2009, datgelodd Computer Weekly fod yna ddiffygion yn y feddalwedd. Arweiniodd hyn at sefydlu Cynghrair Cyfiawnder yr Is-bostfeistri. Ym mis Rhagfyr 2019, dyfarnodd barnwr o'r uchel lys fod Horizon yn cynnwys bygiau a allai fod wedi addasu cyfrifon yr is-bostfeistri. Yn 2024, ar ôl cael cryn sylw yn y wasg, pasiwyd deddfwriaeth gan y senedd – sef Deddf Troseddau Swyddfa'r Post (System Horizon) 2024 – gogyfer gwrthdroi'r euogfarnau.

Arweiniodd yr euogfarnau troseddol, y dyledion, y methdaliadau a'r swyddi a gollwyd at straen emosiynol enfawr i'r is-bostfeistri a'u teuluoedd. Caiff 13 o hunanladdiadau eu cysylltu â'r sgandal.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
postofficehorizoninquiry.org.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Roedd Swyddfa'r Post a Fujitsu yn gwybod bod diffygion difrifol yn perthyn i Horizon pan gyflwynwyd y system yn y flwyddyn 2000.

Yn ystod yr ymchwiliadau, newidiodd Swyddfa'r Post ddatganiadau gan dystion er mwyn cael gwared ag unrhyw gyfeiriad at broblemau gyda'r system. Yn ddiweddarach, yn ystod treialon yr is-bostfeistri, ni ddatgelodd Swyddfa'r Post dystiolaeth a allai fod wedi cefnogi amddiffyniad yr is-bostfeistri.

Cafwyd 26 o is-bostfeistri o Ogledd Iwerddon yn euog ar gam, ond cymerodd ddwy flynedd arall, ynghyd â newid yn y gyfraith, i chwalu eu heuogfarnau – a hynny gan fod y gyfraith gogyfer gwrthdroi euogfarnau yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig ar y dechrau. Mae nifer o is-bostfeistri'n dal i aros i'w henwau gael eu clirio.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Nid camgymeriadau oedd y pethau hyn, ond celwyddau, celu a thwyll bwriadol [...] a barodd i aelodau diniwed a pharchus o'r gymuned gael eu herlyn ac wynebu methdaliad, a chyflawni hunanladdiad mewn ambell achos”

Kevan Jones AS

“Pe baen nhw wedi bod yn agored ac yn onest o'r cychwyn cyntaf, byddem wedi llwyddo i gyrraedd gwraidd y broblem a byddai'r profiad wedi bod yn llai poenus i bawb”

Lee Castleton, ymgyrchydd a chyn is-bostfeistr